

BWLETIN YSGOL MISOL – CHWEFROR 2023

Swyddog Cyswilt Ysgolion Rhanbarthol (Gorllewin Cymru)



"Rwyf wedi mwynhau cymryd rhan yn fy swydd newydd dros y mis diwethaf a chwrdd â phobl newydd y byddaf yn gweithio gydag yn ystod y misoedd nesaf. Edrychaf ymlaen at gwrdd â llawer mwy ohonoch a gweithio gyda chi i gyd er mwyn helpu i fod o fudd i'r plant aelodau'r Lluoedd Arfog yn eich ysgolion. Mae cyfleoedd ar y gweill i ysgolion a phlant y Lluoedd Arfog ledled Gorllewin Cymru gymryd rhan mewn digwyddiadau ar gyfer mis y Plentyn Milwrol ym mis Ebrill. Os hoffech wybod beth sydd ar y gweill neu os hoffech drefnu eich digwyddiadau eich hun ar gyfer Mis y Plentyn Milwrol, cysylltwch â ni a gallwn edrych ar gyllid posib a thrafod syniad yn eich ardal chi." Emma, Emma.Reeves@pembrokeshire.gov.uk

Swyddog Arweiniol Cyfranogiad

"Ers Hydref mae 62 o blant oed ysgol gynradd bellach wedi cwblhau cwrs Llesiant 7 wythnos Little Trooper. Rydym wedi cael adborth gwych gan bawb a gymerodd ran. Gwaith gwych gan Ysgol Babanod Mount Street, Ysgol Gynradd Sain Tathan ac Ysgol Pen-y-bryn. Diolch i chi i gyd ac edrychaf ymlaen at weld eich Clybiau Little Troopers yn parhau a gwneud gwahaniaeth. Hefyd, bravo MAWR ychwanegol i Lilly, Evelyn, Conall ac Emelia o Glwb Troswyr Bach Ysgol Gynradd Sain Tathan a Cari a Lyla o Glwb Forces Life Ysgol Uwchradd Llanilltud Fawr, fe wnaethon ni fwynhau clywed gennych chi yn seremoni wobrwyo eich ysgol. Rydych yn llysgenhadon gwych i blant/pobl ifanc y Lluoedd Arfog trwy ledled Cymru." Jo, Joanna.wolfe@wlqa.gov.uk



DYLETSWYDD CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG

Mae Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog yn rhwymedigaeth gyfreithiol ar rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, i dalu sylw dyladwy i egwyddorion y Cyfamod wrth arfer rhai swyddogaethau.

Daeth Dyletswydd y Cyfamod i rym ar 22ain Tachwedd 2022.

Rhagor o
wybodaeth
yma

CYLLID

SSCE Cymru Cymhorthydd rheoli achosion
Ar gael trwy gydol y flwyddyn.

Rhagor o
wybodaeth yma

Cyngor: Siaradwch â'ch Swyddog Cyswilt Ysgolion Rhanbarthol a defnyddiwch ganllawiau cyllido SSCE Cymru ar gyfer ysgolion yng Nghymru.



HYFFORDDIANT

YN DOD
YN FUAN...
eDdysgu
SSCE

Sesiynau DPP SSCE Cymru
Dyddiadau ar gael ym mis Mawrth.

Gweler dyddiadau ac
archebwch yma

**Month of the
Military Child
Mis y Plentyn
Milwrol**

April/Ebrill | #MotMCCymru